# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth

## Cofnodion y Cyfarfod

Dyddiad: 26/09/18

Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ystafell Gynadledda D

Yn bresennol:

| Enw | Sefydliad | Manylion cyswllt |
|---|---|---|
| Suzy Davies AC | | Suzy.davies@cynulliad.cymru |
| Craig Lawton (Ysgrifennydd) | Suzy Davies AC | Craig.lawton@cynulliad.cymru |
| Adrian Greason-Walker | Cynghrair Twristiaeth Cymru | adriangwalker@gmail.com |
| Andrew Campbell | Cynghrair Twristiaeth Cymru | campbellandrewalex@gmail.com |
| Brian Clark | Y Cyngor Carafanau Cenedlaethol | Brian.C@thencc.org.uk |
| Rob Lewis | Croeso Cymru | |
| Gerwyn | Croeso Cymru | |
| Mari Stevens | | |
| Danielle May | BH&HPA | D.may@bhhpa.org.uk |
| Clare Hallett | Cymdeithas Gweithredwyr Hunanddarpar Cymru (WASCO) | keestonhillcottage@gmail.com |
| Paula Ellis | Retreats Group | paula.ellis@retreatsgroup.com |
| George Reid | Sir Gaerfyrddin | glangwilimansion@googlemail.com |
| Oscar Asghar AC | | |
| Adam Smith | Village Hotel, Swansea | Adam.Smith@village-hotels.com |
| Dai Lloyd AC | | |
| Russell George AC | | |
| Mark Isherwood AC | | |

**Ymddiheuriadau**

| Enw | Sefydliad | Manylion cyswllt |
|---|---|---|
| Helen Mary Jones AC | | |
| Llyr Gruffydd AC | | |

1. Croeso gan y Cadeirydd

Croesawodd SD yr aelodau

2. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol

3. Niferoedd yr ymwelwyr o dramor *a'r*
4. Arolwg Teithwyr Rhyngwladol

Esboniodd Croeso Cymru ychydig am yr Arolwg Teithwyr Rhyngwladol a sut y caiff y data ei ddefnyddio, yn ogystal â faint y bydd yn costio i Lywodraeth Cymru.

O gyfanswm cost yr arolwg, dim ond £10,000 a oedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ei dalu.

Cafwyd tua 800,000 o ymwelwyr i Gymru y llynedd, ac roedd hyn yr un peth ag yn 2006

Mae'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol ar waith ers 1961

Mae'n mesur y nifer o bobl sy'n teithio i mewn ac allan o'r DU, ac mae tua hanner y cyfweliadau gyda thrigolion o Brydain. O'r hanner arall, mae hanner ohonynt yn bobl o dramor sy'n gadael.

Mae hyn yn gadael tua 50,000 ohonynt yn bobl tramor sy'n dod i'r DU. Dyma'r data o ddefnydd.

O'r 50,000 hyn, mae tua 3% yn cynrychioli Cymru, neu tua 1,500

Mae'r lefel hyder rhwng +/- 8 a +/- 10%

Mae hyn yn golygu nad yw'r ffigurau o werth mawr ar eu pen eu hunain, ond maent o werth wrth gymharu gwahanol flynyddoedd a chwilio am dueddiadau

Ceir hefyd y baromedr, a ddefnyddir i ddangos lefelau diddordeb a rhifau ar adegau penodol o'r flwyddyn. Gall hyn fod yn fwy defnyddiol

Mae Croeso Cymru hefyd yn edrych i weld a allant weithio gyda chwmnïau eraill sy'n casglu a defnyddio data, fel Trip Advisor ac Expedia, i ddarganfod ble mae pobl yn mynd, pryd maent yn mynd, a faint o awgrymiadau a ddilynir

Mae Croeso Cymru yn gweithio gyda busnesau er mwyn eu galluogi i gymryd rhan mewn cyfleoedd marchnata dramor. Fodd bynnag, mae'r niferoedd sy'n penderfynu cymryd rhan yn isel. Hoffai Croeso Cymru gynyddu'r niferoedd hyn.

Cadarnhaodd Croeso Cymru fod nifer yr ymwelwyr i Gymru fel a ganlyn:

2006: 1.16 miliwn
Gwelwyd gostyngiad rhwng 2008 a 2012 i oddeutu 854,000 o ymwelwyr y flwyddyn
Gwelwyd cynnydd rhwng 2012 a 2017
Mae'r niferoedd yn 2017 wedi bod yr un mor uchel â'r niferoedd yn 2006

Mae gwariant hefyd wedi cynyddu, ac ers 2016 mae wedi bod yn £444m

Mae'r Alban a Lloegr wedi gweld cyfraddau twf cyflymach

Roedd cwestiynau gan y grŵp ynghylch pam fod Cymru islaw'r Alban o ran cyfraddau gwario a chynyddu.

Nododd Croeso Cymru fod gan yr Alban dair gwaith mwy o ymwelwyr na Chymru, a rhai sy'n aros am gyfnodau hir yn hytrach na diwrnod neu ddau. Mae hyn yn arwain at wariant cyfartalog uwch fesul trip

Gofynnodd SD pam fod pobl yn ymweld â'r Alban am gyfnodau hirach
Esboniodd Croeso Cymru fod treftadaeth yr Alban wedi cael effaith fawr gyda nifer fawr o bobl â chysylltiadau â'r Alban yn UDA, Canada ac Awstralia. Mae'n llawer mwy o faint na Chymru

Roedd gan yr Alban hefyd gyllideb well ar gyfer marchnata

Nodwyd hefyd bod yr Alban wedi ehangu meysydd awyrennau Caeredin a Glasgow.

Y rheswm cyntaf sydd gan bobl i ymweld â'r DU yw gweld ffrindiau a chysylltiadau eraill, a'r ail yw teithiau busnes

Nododd SD enghreifftiau megis Cadw a ZipWorld a soniodd am sut y gall y rhain ddenu ymwelwyr i Gymru, ond bod angen eu hannog wedyn i aros er mwyn ymweld ag atyniadau eraill

Cadarnhaodd Croeso Cymru eu bod yn ceisio cynnwys pob rhan o Gymru yn y Cynllun Gweithredu Economaidd newydd. Ychwanegodd fod llefydd fel Zip World yn gymorth mawr yn hyn o beth

Cododd SD a DL gwestiynau ynghylch gwerthu Cymru i'r Unol Daleithiau

Cadarnhaodd Croeso Cymru fod dau berson yn yr Unol Daleithiau a'u bod yn datblygu cysylltiadau pellach

Mae Croeso Cymru yn ailddatblygu eu gwefan ac yn cynyddu eu dilynwyr ar gyfryngau cymdeithasol i helpu gyda marchnata

Mae'r Flwyddyn Ddarganfod y flwyddyn nesaf yn bwriadu gweld cynnydd mewn ymwelwyr achyddiaeth i Gymru o dramor

Gofynnodd RG am berthynas Croeso Cymru gyda swyddfeydd Llywodraeth Cymru dramor a ph'un a ellir cysylltu â hwy.

Cadarnhaodd Croeso Cymru fod swyddfa'r Prif Weinidog yn cynnwys swyddfeydd masnach yn ogystal â Chroeso Cymru, ac yn yr Unol Daleithiau, maent yn rhannu eu swyddfeydd gyda Visit Britain

Yn gyffredinol, mae'n haws cysylltu â Llywodraeth Cymru dramor fel y byddant yn cysylltu â Chroeso Cymru, yn hytrach na chysylltu â Chroeso Cymru'n uniongyrchol.

Ychwanegodd RG fod pwyllgor yr economi yn teimlo fod y rheini sy'n defnyddio swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn eu gweld yn ddefnyddiol ac yn gynorthwyol, ond fod eraill yn ei chael yn anodd dod o hyd iddynt ac yn anodd cysylltu â nhw.

Gofynnwyd p'un a yw'r diwydiant yn ymwybodol o'r rôl y mae Croeso Cymru yn ei chwarae

Cadarnhaodd Croeso Cymru eu bod wedi cynnal 84 o gyfarfodydd dros 16 diwrnod ledled Cymru yn ddiweddar er mwyn trafod cyfleoedd i gynrychiolwyr busnes a diwydiant i weithio gyda nhw

Cafwyd cynnydd o 200% yn y nifer o ymwelwyr a gafwyd o'r UDA yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf

Fodd bynnag, os oes modd i ddiwydiant ymgysylltu ymhellach, bydd hyn yn helpu twristiaeth yng Nghymru ymhellach hefyd

Nodwyd enghreifftiau o waith da yng ngogledd Cymru, a chadarnhaodd Croeso Cymru iddynt gynorthwyo nifer o'r prosiectau hynny ar y dechrau cyn iddynt wedyn barhau'n annibynnol gan nad oedd angen eu cymorth arnynt bellach

Codwyd y mater yn ymwneud â system raddio Croeso Cymru a gofynnwyd p'un a yw bellach yn ddefnyddiol. Codwyd hefyd y ffaith nad yw'r rheini sy'n hunanarlwyo yn aml yn gweld manteision marchnata Croeso Cymru

Cadarnhaodd Village Hotel fod y rhan fwyaf o'u hymwelwyr o dramor yn dod o weithredwyr teithiau. Fodd bynnag, maen nhw'n teimlo bod "brand Cymru" wedi helpu gyda niferoedd yr ymwelwyr

Serch hynny, nid yw'r rhan helaeth o'u hymwelwyr yn rai rhyngwladol

Cadarnhaodd NCC fod llawer o ddefnyddwyr carafanau domestig hefyd

Cadarnhaodd Croeso Cymru eu bod yn ystyried:

1. Sut y gallant gael gafael ar ddata yn ymwneud ag ymwelwyr a'i ddefnyddio
2. Faint y mae marchnata digidol o fudd i'r diwydiant mewn gwirionedd

Cadarnhaodd Croeso Cymru nad ydynt eto wedi penderfynu faint y maent yn bwriadu'i wario ar gasglu a dadansoddi data

Ychwanegodd Cynghrair Twristiaeth Cymru, er y gall busnesau a brandiau mwy ymgysylltu yn haws ac mewn modd mwy syml â Chroeso Cymru a brandiau marchnata mawr, gall fod yn anodd i fusnesau llai

Ychwanegodd Cynghrair Twristiaeth Cymru fod angen data mwy cadarn i alluogi Croeso Cymru i ragweld pethau yn hytrach na defnyddio data hanesyddol i wneud rhagdybion am beth a all ddigwydd yn y dyfodol

Ychwanegodd SD fod angen i Groeso Cymru ei gwneud hi mor syml â phosib i fusnesau micro elwa o'u gwaith a'u data

Ychwanegodd Croeso Cymru na allant annog twristiaid i drefnu gwyliau gyda busnesau unigol o ganlyniad i reolau cymorth gwladwriaethol

Ychwanegodd NCC mai'r tywydd yw'r prif reswm dros weld cynnydd yn y rhai wedi trefnu gwyliau yn y sector garafanau yn hytrach na marchnata

Ychwanegodd GR nad yw'r data sy'n cael ei gasglu ar gyfer Baromedr Cymru yn fanwl gywir o ganlyniad i'r ffordd mae'n cael ei gasglu. Mae hyn oherwydd eu bod yn aml yn galw busnesau yn syth

ar ôl cyfnodau o incwm uchel neu gyfnodau prysur, sy'n arwain at deimladau ac atebion mwy cadarnhaol o'i gymharu â phe baent yn galw'n syth ar ôl cyfnod tawel

Yn ogystal â hynny, mae'r galwadau'n cael eu gwneud heb apwyntiad, felly nid oes gan lawer o fusnesau eu data neu wybodaeth wrth law ac mae hyn yn golygu bod y data'n llai cywir

Ychwanegodd Croeso Cymru y gallasant ystyried p'un a ddylid parhau â'r IPS o gwbl yn y dyfodol, ynteu wneud rhywbeth gwahanol

Yn ôl arolygon, mae'r pedwar prif beth sy'n rhwystro pobl rhag ystyried ymweld â Chymru yn parhau i fod fel a ganlyn:

1. Y tywydd
2. Mae'n anodd cyrraedd
3. Mae pobl yn anghyfeillgar
4. Mae diffyg pethau i'w gwneud

Ffocws Croeso Cymru yw pwysleisio bod llawer o bethau i ymwelwyr i wneud

Trafodwyd marchnata Ffordd Cymru yng ngogledd Cymru a gwnaed cymariaethau â phroblemau Ffordd Fawr y Gorllewin yn Lloegr yn y gorffennol

Rhoddwyd enghreifftiau o 'Iron Man Wales' fel rhywbeth a gafwyd effaith gadarnhaol ar farchnata yn Sir Benfro

Cadarnhaodd Croeso Cymru iddynt gefnogi'r prosiect yn ariannol ar y dechrau, ond nad oes bellach angen eu cefnogaeth arno

Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag annog ymwelwyr i ymweld â rhannau gwahanol o Gymru yn hytrach na Chaerdydd

Cadarnhaodd Croeso Cymru fod lefel anghymesur o ymwelwyr i Gaerdydd o ganlyniad i'r maes awyrennau, a chan fod busnesau yn cael eu lleoli yng Nghaerdydd, a bod llawer o ffrindiau a theuluoedd ymwelwyr yn byw yng Nghaerdydd

Ychwanegwyd y gall Croeso Cymru gysylltu â fforymau rhanbarthol mewn rhannau eraill o Gymru os oes ganddynt brosiectau neu syniadau yr hoffent weithio arnynt, ac y gallant hefyd helpu i ariannu'r rhain

Ychwanegodd AC fod gweld Brexit yn y newyddion wedi helpu rhywfaint gan fod llawer o'r twristiaid y mae wedi cwrdd â nhw wedi ymweld â'r DU ar ôl ei weld drwy'r ffynhonnell hon

5. Unrhyw fater arall

Cadarnhaodd SD y byddai'n cysylltu â Visit Britain eto ynglŷn â mynychu cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol i drafod y rôl y maen nhw'n ei chwarae wrth farchnata'r DU, sut y mae Cymru yn cael budd o hyn ar y funud a'r budd y gallai ei gael o hyn yn y dyfodol.

Cloi